

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 15 Tachwedd, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Y Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, B. Loveluck-Edwards ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr S.J. Haines a Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Dywedodd y Cynghorydd C.P. Franks datganodd fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem Agenda Rhif 5 – Adolygiad o Ranbarthau Pleidleisio a Lleoedd Bro Morgannwg 2023. Roedd natur y buddiant i'w briodoli i'w rôl fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Llyfrgell a Chanolfan Weithgaredd Dinas Powys. dim ond pan oedd yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Bro Morgannwg a Dinas Powys yr oedd ganddo ollyngiad i siarad ar faterion yn ymwneud â'r corff hwn (gan gynnwys ceisiadau grant). Oherwydd hyn, gadawodd y Cynghorydd Franks y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD: GWASANAETH CYSYLLTIADAU CWSMERIAID / C1V –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyflwyniad ar y Gwasanaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid / C1V a bod diweddariad pellach ar gynnydd mewn perthynas â'r pwnc hwn yn cael ei ddarparu ymhen chwe mis, ynghyd â gwahoddiad pellach i Aelodau'r

Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol. i fynychu canolfan C1V a gweld gwaith y Gwasanaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ADOLYGIAD O RANBARTH AU PLEIDLEISIO A LLEOEDD BRO MORGANNWG 2023 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad yn cael ei nodi a'i chytuno.
- (2) Y byddai'r adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at y newidiadau arfaethedig i'r Mannau Pleidleisio a/neu'r Gorsafoedd Pleidleisio a nodir ym mharagraffau 2.1 i 2.51 yndo, yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried a chytuno arno.
- (3) BOD y Cabinet yn ystyried cyfeirio'r adroddiad hwn i'r Cyngor i'w ystyried gyda golwg ar gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig ar unwaith a bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyfeirio at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned a'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol er gwybodaeth.
- (4) Y dylid ystyried ymhellach yr anghysondeb mewn perthynas â chyfluniad rhanbarthau pleidleisio yn y Bont-faen a'i berthynas â'r manau pleidleisio / gorsafoedd pleidleisio arfaethedig a phresennol maes o law.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet allu ystyried yr adroddiad a'i newidiadau arfaethedig, yn unol â swyddogaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac y bydd y cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynorthwyo i wella profiad pleidleisio etholwyr a chodi ymwybyddiaeth. .
- (3) Er mwyn caniatáu i'r Cyngor dderbyn yr adolygiad ac er gwybodaeth i Gynghorau Tref a Chymuned a'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol.
- (4) Er mwyn adolygu a mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau a nodir.